Newyddion Ysgolion a Llywodraethwyr

Tymor yr Hydref 2010

Yn y rhifyn hwn. .

- Rhaglen Moderneiddio Ysgolion
- Cynhadledd Llywodraethwyr Llwyddiannus
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol/Cynhadledd Cymdeithas Llywodraethwyr Powys
- Pobl Ifanc Weithgar Y Diweddaraf ar Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol
- Gwobr Ysgolion Cynhwysol Cymru (ISAW)
- Cymdeithas Llywodraethwyr Powys
- Canlyniadau Arholiad / Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2010

Powys

AD-DREFNIAD Y GWASANAETH YSGOLION A CHYNHWYSIANT

Rwy'n falch i allu cadarnhau fod cam cyntaf ad-drefniad y Gwasanaeth Ysgolion a Chynhwysiant wedi'i gwblhau. O'r 1 Medi, enw newydd y gwasanaeth fydd y Gwasanaeth Ysgolion, i adlewyrchu dechrau perthynas newydd rhwng yr Awdurdod a'i ysgolion, fel y disgrifir o fewn y **Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.**

Mae'r Fframwaith yn cyfeirio at bwysigrwydd gweithio ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau. I ddarparu lefel cadarn ac eglur o gydweithio rhwng yr Awdurdod Lleol ac ysgolion, mae 4 **'Tîm Effeithiolrwydd Ysgolion' (SET)** wedi'u sefydlu i arwain y ffordd newydd hwn o weithio.

Caiff y timoedd hyn eu rheoli gan ddau Uwch Swyddog Addysg – Ian Roberts, sy'n gyfrifol am 2 dîm yng ngogledd Powys a John Barker, sydd â chyfrifoldeb tebyg yng nghanol/de Powys. Mae'r timoedd yn gweithio ar draws yr ardaloedd canlynol:

Ardal 1 – Llanfyllin, Caereinion a Bro Ddyfi
Ardal 2 – Y Trallwng, y Drenewydd a Llanidloes.
Ardal 3 – Llandrindod, Llanfair-ym-Muallt a John Beddoes
Ardal 4 – Aberhonddu, Gwernyfed, Crughywel a Maesydderwen

Ffocws cychwynnol y Timoedd Effeithiolrwydd Ysgolion yw:

- Arweinyddiaeth – cefnogi athrawon dosbarth, rheolwyr canol, uwch reolwyr a Llywodraethwyr i ddatblygu eu cynhwysedd a'u harbenigedd.
- Safonau, Addysgu a Dysgu – sicrhau fod y cwricwlwm yn berthnasol ac wedi'i bersonoli i anghenion eich plentyn neu unigolyn ifanc, a bod addysgu o'r ansawdd uchaf yn cael ei gyflwyno.
- Gweithio gydag Eraill - cefnogi ysgolion i ddatblygu eu ffocws cymunedol. Eu cyswllt gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yn ystod a'r tu hwnt i'r diwrnod ysgol; eu cyswllt gyda darparwyr gwasanaeth eraill.

Dylai pob ysgol fod wedi derbyn gwybodaeth fwy manwl am waith y Timoedd Effeithiolrwydd Ysgolion, a gobeithir y byddwch wedi rhannu hyn gyda'r holl Lywodraethwyr. Os nad yw hyn wedi digwydd, rwy'n siŵr y bydd sgwrs gyda'r Pennaeth yn datrys hyn. Mae gwybodaeth bellach ar gael hefyd ar fewnrwyd y Cyngor, lle mae holl strwythur y Gwasanaeth Ysgolion a disgrifiadau swyddi'r Swyddogion SET i'w gweld.

Bydd Rhan 2 ad-drefniad y Gwasanaeth Ysgolion yn digwydd dros y flwyddyn academaidd nesaf. Bydd hyn yn dod â gwasanaethau fel Seicoleg Addysg; Nam ar y Clyw/Nam ar y Golwg; y Gwasanaeth Athrawon Bro; Lles Addysgol ac eraill i alinio â'r Timoedd Effeithiolrwydd Ysgolion newydd. Cyflwynir mwy o wybodaeth ar hyn yn fuan.

Douglas Wilson, Pennaeth Ysgolion a Chynhwysiant

RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION

Ystradgynlais – Adolygiad Dalgylch Maesydderwen
Wedi i Fwrdd y Cyngor gytuno ar 10 Mawrth 2010 i ddechrau ymgynghori ar gau deg ysgol gynradd ac agor pedair ysgol newydd, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd ymgynghori ym mhob ysgol yn ystod Tymor yr Haf 2010. Roedd pob digwyddiad ymgynghori yn cynnwys cyfarfod gyda staff, llywodraeth-wyr a rhieni a'r gymuned ehangach.

Roedd pobl oedd â diddordeb yn gallu gwneud sylwadau mewn ymateb i'r adolygiad erbyn 16 Gorffennaf. Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir ac ymateb swyddog yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd ar 14 Medi. Os bydd y Bwrdd yn cymeradwyo parhau gyda'r broses hon, yna bydd y broses ffurfiol o gyhoeddi rhybuddion o gau ysgolion yn dechrau.

Mae brasluniau ar gyfer yr ysgolion newydd a chynlluniau yn dangos eu haliniad ar y pedwar safle wedi'u cynhyrchu. Mae'r ysgolion newydd yn dal i fod ar darged i agor erbyn Medi 2012.



Cynllun arfaethedig ar gyfer yr ysgolion cynradd newydd yn Ystradgynlais. Caiff y pedair ysgol eu hadeiladu i'r cynllun a ddangosir, wedi'i addasu i ystyried maint a chyfleusterau'r ysgol.

Adolygiad Dalgylch Gwernyfed
Cynhaliwyd pump cyfarfod o'r Bwrdd Prosiect Ardal, yn cynnwys aelodau lleol, y sector gwirfoddol, yr awdurdod esgobaethol, y bwrdd iechyd lleol a phenaethiaid a/neu gadeiryddion llywodraethwyr yr ysgolion. Bu cytundeb cyffredinol am yr angen i agor rhwng tair a phump ysgol wedi'u hadnewyddu yn lle'r 10 ysgol sydd yn y dalgylch ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gytundeb ffurfiol wedi bod eto.

Adolygiad Dalgylch John Beddoes
Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Prosiect Ardal ym mis Mai. Mae'n dal i fod yn gynnar iawn yn y broses, ond bwriedir y bydd yn dilyn patrwm tebyg i adolygiadau blaenorol, gyda gwybodaeth yn cael ei chyflwyno ar niferoedd a lleoliad disgyblion, cyflwr ysgolion a lleoedd dros ben, gyda thrafodaeth dilynol o safleoedd posibl ar gyfer yr ysgolion newydd.

Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Trefonnen, Llandrindod
Disgwylir y bydd yr ysgol newydd wedi'i chwblhau erbyn Rhagfyr 2010, ac y bydd yr ysgol yn symud i mewn ym mis Ionawr 2011. Bydd gweddill y datblygiad, yn cynnwys y maes parcio a'r cae chwarae, yn barod erbyn Ebrill 2011.

Mae trafodaethau eisoes wedi dechrau ynglŷn â rheolaeth yr adeilad yn y dyfodol fel ysgol fro.
Mae nifer o asiantaethau sy'n cefnogi plant a rhieni (Play Radnor, Action for Children, Barnardo's, Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed) wedi dangos diddordeb mewn cael lle swyddfa neu bresenoldeb yn yr ysgol.

Owen James
Rheolwr Cymorth Moderneiddio Ysgolion

RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG UWCHRADD AC ÔL-16 POWYS

Hoffem ddiolch i chi am eich adborth ynglŷn â'r Rhaglen Amlinellol Strategol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin. Rydym yn ddiolchgar iawn am yr ymateb, gan y bydd hyn yn helpu i gyfrannu at ddatblygiad y Rhaglen Moderneiddio. Rydym yn credu ei fod yn bwysig ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i ymdrin â'r sialensiau sy'n wynebu'r sector addysg yn y sir, ac rydym yn edrych ymlaen at drafodaethau pellach gyda chi wrth i ni symud ymlaen. Caiff crynodeb o'r holl ymatebion eu rhoi ar wefan y Cyngor.

Dylech barhau i anfon eich safbwyntiau a'ch sylwadau atom – gallwch ysgrifennu at y cyfeiriad uchod, neu gallwch anfon e-bost at **secondaryschool.modernisation@powys.gov.uk**, neu gallwch ymateb yn uniongyrchol ar y tudalennau moderneiddio uwchradd ar wefan Powys **www.powys.gov.uk.**

Mae'r Tîm Moderneiddio Uwchradd wedi bod yn cwrdd â nifer o wahanol bobl i gasglu eu barn am addysg ym Mhowys a'r Rhaglen Moderneiddio. Mae'r rhain yn cynnwys llywodraethwyr ysgolion uwchradd, Fforwm Ieuenctid Powys, y Rhwydwaith 14-19, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a phartneriaid allweddol fel Coleg Powys. Byddem yn parhau i gwrdd â grwpiau sydd â diddordeb y tymor hwn, felly os hoffech i ni gwrdd â chi, yna cysylltwch â ni – gallwch anfon e-bost neu gallwch ein ffonio ar 01597 826155.

Dros yr haf, mae swyddogion wedi bod yn gwneud gwerthusiad manwl o'r holl opsiynau. Caiff dogfen ymgynghori bellach yn cynnwys cynigion manwl ei chyflwyno yn nes ymlaen y tymor hwn, a bydd cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn.

Bellach, mae'r Tîm Moderneiddio Ysgolion yn cynnwys y swyddogion sy'n gyfrifol am reoli Rhwydwaith 14-19 Powys, gan ddod â'r ddwy raglen bwysig hyn ynghyd. Bydd Jennifer Owen Adams yn gyfrifol am oruchwylio'r Rhaglenni Moderneiddio Cynradd ac Uwchradd, yn ogystal â pharhau gyda'i chyfrifoldebau fel Rheolwr y Rhwydwaith 14-19. Cefnogir hi gan Nici Jones, sydd â chyfrifoldeb penodol i oruchwylio ansawdd darpariaeth 14-19 a datblygiad e-ddysgu. Mae Nici ar secondiad o Goleg Powys ar hyn o bryd.

Marianne Evans
Rheolwr Prosiect Trefniadaeth Ysgolion Uwchradd

Mae mwy o wybodaeth am y rhaglen moderneiddio ysgolion i'w weld ar wefan Powys yn http://www.powys.gov.uk/index.php?id=3851&L=1

CYNHADLEDD LLYWODRAETHWYR LLWYDDIANNUS

Cynhaliwyd y Gynhadledd Llywodraethwyr gyntaf i gael ei chynnal yn enw Cymdeithas Llywodraethwyr Powys (CLIP) yn Neuadd Sir Powys, Llandrindod ar ddydd Sadwrn, 19 Mehefin. Cynhaliwyd y Gynhadledd yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf y Gymdeithas, a phrif fusnes y cyfarfod hwn oedd i gytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer CLIP, gyda rhai newidiadau bach ond pwysig.

Dechreuodd y Gynhadledd ei hun gyda'r siaradwr allweddol, Mr Mike Maguire o Estyn - Arolygwr Ysgolion profiadol iawn. Aeth ati i amlinellu amcanion a fframwaith y cylched nesaf o arolygiadau ysgolion yng Nghymru yn effeithiol, a dilynwyd hyn gan sesiwn holi ac ateb bywiog iawn.

Yna, torrodd y Gynhadledd i fyny ar gyfer cyfres o weithdai, a gafodd eu hwyluso gan staff yr Awdurdod, ar bob un o'r tri chwestiwn allweddol yn fframwaith newydd Estyn: Canlyniadau, Darpariaeth ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Roedd pynciau'r gweithdai yn dilyn ymlaen yn naturiol o anerchiad Mr Maguire, ac fe'u derbyniwyd fel fformat rhesymegol, addysgiadol ac ymarferol ar gyfer y Gynhadledd.

Ar ran Pwyllgor Gweithredol CLIP, hoffwn ddiolch i'r holl staff yn Neuadd Sir Powys am eu gofal a'u cymorth yn ystod y Gynhadledd. Yn benodol, hoffwn ddiolch i Ian Roberts, Beth Groves a'u timoedd am yr holl waith meddwl, cynllunio a threfnu a wnaethant i gyfrannu at Gynhadledd lwyddiannus iawn, ac am eu cefnogaeth barhaus i Gymdeithas Llywodraethwyr Powys.

CYNHADLEDD LLYWODRAETHWYR LLWYDDIANNUS PARHAD...

Roedd y presenoldeb yn y Gynhadledd yn galonogol iawn, gyda Llywodraethwyr ledled Powys ac o bob math o ysgolion yn mynychu. Mae bod yn llywodraethwr ysgol yn golygu ymrwymo amser, egni ac arbenigedd i gynnal a datblygu'r safonau uchaf o addysgu a llywodraethu ym Mhowys. Felly, rydym yn gwerthfawrogi'r amser ychwanegol a roddwyd i fynychu'r Gynhadledd eleni, rydym yn gobeithio eich bod wedi ystyried y diwrnod i fod yn ddefnyddiol, ac rydym yn edrych ymlaen at weld hyd yn oed mwy o Lywodraethwyr yn y Gynhadledd nesaf ym Mehefin 2011.

Yn y cyfamser, gwnewch bob ymdrech i sicrhau fod yr ysgol yn cael ei chynrychioli yn y cyfarfodydd Llywodraethwyr rhanbarthol ym mis Tachwedd, fel y gallwn barhau i ddatblygu effeithiolrwydd Cymdeithas Llywodraethwyr Powys o ran hyrwyddo arfer orau wrth lywodraethu yn ysgolion Powys, cryfhau cysylltiadau rhwng Llywodraethwyr ym Mhowys a gweithredu fel sianel ar gyfer cyfathrebu rhwng Llywodraethwyr Powys a'r awdurdod lleol.

Wyn Owen
Cadeirydd Pwyllgor Gweithredol CLIP

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL/CYNHADLEDD CYMDEITHAS LLYWODRAETHWYR POWYS – DYDD SADWRN 19 MEHEFIN 2010

Wedi i mi fod yn aelod gweithgar o Gyngor yr Ysgol yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt ers 7 mlynedd, roedd dod yn Ddisgybl Lywodraethwr Cyswllt yn ymddangos yn gam nesaf rhesymegol.

Wedi i mi fod yn Ddisgybl Lywodraethwr Cyswllt ers dwy flynedd, roedd mynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Llywodraethwyr Powys, yn enwedig y cyntaf, yn ymddangos yn gyfle da iawn i mi gwrdd â Llywodraethwyr eraill. Efallai y byddwn yn cael cyfle i gwrdd â Disgybl Lywodraethwyr Cyswllt eraill hefyd, i drafod beth roeddent hwy yn ei wneud yn eu hysgolion hwy o'u cymharu â'n hysgol ni.

Cyn y diwrnod, nid oeddwn yn hollol siŵr beth i'w ddisgwyl, ond roeddwn yn meddwl ei fod yn debyg mai fi fyddai'r unig ddisgybl lywodraethwr a oedd yn bresennol, ac y byddai'r rhan fwyaf yn oedolion, a fyddai'n edrych arnaf ac yn fy stereoteipio yn syth. Ond cefais fy synnu ar yr ochr orau. Rwy'n meddwl fod y rhan fwyaf o'r Llywodraethwyr yn meddwl mai Llywodraethwr 'go iawn' oeddwn i.

Roedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ddiddorol iawn, am ei fod wedi rhoi mewnwelediad i mi a'r Llywodraethwyr eraill i sut y mae Powys yn teimlo am Lywodraethwyr. Roedd hefyd yn gyfle da i weld pa mor angerddol y mae rhai o'r Llywodraethwyr.

Roedd y sgwrs gan Estyn yn arbennig o ddiddorol, yn enwedig gan fy mod yn gobeithio bod yn athrawes pan fyddaf yn hŷn, os bydd popeth yn mynd yn dda yn y brifysgol yn y blynyddoedd i ddod! Roedd y gweithdai eraill yn ddiddorol hefyd, ac fe wnaethant i mi feddwl dwywaith am fod yn athrawes!

Roedd y diwrnod yn gyflwyniad da iawn i rôl Llywodraethwyr. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud fod y graffiau a ddefnyddiwyd yn ystod y Gweithdy ar Gwestiwn Allweddol 1: Safonau a Lles yn gymhleth iawn ac yn eithaf anodd eu deall - gobeithio nad fi oedd yr unig un oedd yn meddwl hyn!

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Powys am roi'r cyfle hwn i mi, ac am alluogi i mi ddysgu mwy am rôl Llywodraethwr.

Miss Claire James
Disgybl Lywodraethwr Cyswll, Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt

POBL IFANC WEITHGAR
Y DIWEDDARAF AR ADDYSG GORFFOROL A CHWARAEON YSGOL

Yn y rhifyn diwethaf, fe wnaethom gyflwyno ein prosiectau Pobl Ifanc Weithgar i chi. Yn y rhifyn hwn, rydym yn mynd i ddweud wrthych am rai o lwyddiannau'r prosiect PESS.

FFAITH PESS

Mae 36 o gyrsiau wedi bod yn rhedeg yn ystod 2009/10, ac mae 504 wedi eu mynychu ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd, a hynny heb unrhyw gost i'r ysgol. Mae'r cyrsiau wedi amrywio o hyfforddiant ar gyfer goruchwylwyr canol dydd ar gyfer Yn y Parth i Gardiau Dysgu yn yr Awyr Agored a Gymnasteg ar gyfer Athrawon

Clwb Dal i Fynd

Mae Clwb Dal i Fynd yn adnodd a gaiff ei gynhyrchu gan PESS. Mae'n edrych ar gael plant, rhieni ac athrawon yn heini, trwy redeg, cerdded, sgipio, neu unrhyw ffordd y maent yn teimlo'n gyfforddus yn cwblhau nifer dynodedig o lapiau o amgylch tiroedd yr ysgol.

Mae Ysgol Gynradd Caehopcyn yng nghlwstwr Ystradgynlais wedi rhoi llawer iawn o ynni i mewn i ddatblygu Clwb Dal i Fynd. Wedi i drac gael ei farcio allan gan Adran Priffyrdd Powys, cafodd y cynllun ei weithredu ar sail rota tymhorol, yn gysylltiedig â thema cyffredin. Mae'r plant wedi cymryd rhan yn y prosiect yn frwd, ac yn ddiweddar, fe wnaethant gymryd rhan mewn rhedeg milltir i 'Sport Relief', gan ddefnyddio eu trac i gyfrifo'r milltiredd.

Er mwyn annog y plant i gymryd rhan, fe wnaeth y Pennaeth, Chris Barton, roi thema gwisg ffansi ar waith, er mwyn ei wneud yn hwyl ac yn ddiddorol. Mae'r plant yn mwynyau cymryd rhan, ac maent yn fwy gweithgar o ganlyniad.

Penderfynnodd Ysgol Gynradd Y Groes i ddefnyddio'r Clwb Dal i Fynd yn ystod eu gwersi – rhoddwyd llyfryn i bob plentyn, a oedd yn edrych ar fanteision ac effeithiau tymor hir ymarfer corff. Yna, dros nifer o wythnosau, rhoddwyd 20 munud i'r plant redeg neu gerdded o amgylch llwybr yr ysgol. Pob wythnos, roedd rhaid iddynt gofnodi faint o lapiau yr oeddent wedi'u cyflawni, yna byddant yn gosod targedau personol iddyn nhw'u hunain. Roeddwn yn ddigon lwcus i ymweld â'r Groes, ac fe wnaeth y plant fy ngwahodd i redeg gyda hwy, oedd yn llawer o hwyl!

Dyma beth ddywedodd rhai o'r plant am Clwb Dal i Fynd ...

"Mae'n gwneud i mi deimlo'n falch, yn llawn egni, ac yn heini." Dominic. "Mae'n llawer o hwyl i wneud hyn gyda'ch ffrindiau." Chloe, Emily a Siobhan. "Mae'n fy ngwneud yn fwy heini ac yn gwneud i mi deimlo'n dda." Tom.

Tîm Pobl Ifanc Weithgar

GWOBR YSGOLION CYNHWYSOL CYMRU (ISAW)

Mae Ysgol GG Llandrindod Cefnllys wedi cynnal peilot o gynllun achredu newydd, ac wedi ennill Gwobr Aur y Wobr Ysgolion Cynhwysol Cymru (ISAW). Gwobrwyir yr ISAW i ysgolion a lleoliadau dysgu eraill, i gydnabod eu diwylliannau, polisïau ac arferion cynhwysol.

Roedd yr ysgol yn disgwyl derbyn y Wobr Efydd yn y peilot. Fodd bynnag, roedd yr aseswyr annibynnol yn teimlo fod arferion cynhwysol yr ysgol wedi'u sefydlu'n gadarn yn ethos yr ysgol, ac fe wnaethant gymeradwyo'r ysgol ar gyfer y Wobr Aur.

Yn y llun gwelir disgyblion o Ysgol GG Llandrindod Cefnllys, gyda'u Gwobr Ysgolion Cynhwysol Cymru, ynghyd â Chris Tonkin, Pennaeth, a swyddogion o'r Gwasanaeth Ysgolion.

CYMDEITHAS LLYWODRAETHWYR POWYS

Mae agendâu, cofnodion a gwaith papur yn ymwneud â'r pwyllgor gweithredol a phob cyfarfod rhanbarthol ar gael i'w lawrlwytho o adran y Llywodraethwyr ar Wefan Powys, http://www.powys.gov.uk/index.php?id=8101&L=1

Mae'r dyddiadau ar gyfer tymor yr hydref, y gwanwyn a'r haf wedi'u trefnu, ac maent i'w gweld isod:

Dyddiadau Cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol yn ystod 2010/11

Dydd Mercher, 22 Medi 2010 Dydd Mercher, 9 Chwefror 2011

Dyddiadau Cyfarfodydd y Gymdeithas Llywodraethwyr yn ystod 2010/11

De – Dydd Iau, 18 Tachwedd 2010 (Ysgol Uwchradd Aberhonddu, LD3 9SR)
nodwch y newid yn y dyddiad
Canol – Dydd Iau, 11 Tachwedd 2010 (Neuadd y Sir, Llandrindod, LD1 5LG)
Gogledd – Dydd Iau, 18 Tachwedd 2010 (Neuadd Maldwyn, Y Trallwng, SY21 7AS)

De – Dydd Iau, 17 Mawrth 2011 (Ysgol Uwchradd Aberhonddu, LD3 9SR)
Canol – Dydd Mawrth, 22 Mawrth 2011 (Neuadd y Sir, Llandrindod, LD1 5LG)
Gogledd – Dydd Iau, 24 Mawrth 2011 (Neuadd Maldwyn, Y Trallwng, SY21 7AS)

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol/Cynhadledd – Dydd Sadwrn, 18 Mehefin 2011 (lleoliad i'w gadarnhau)

Caiff yr agenda ar gyfer Cyfarfodydd y Gymdeithas ym mis Hydref ei ddosbarthu ar ddechrau mis Hydref.

RHAGLEN HYFFORDDIANT A DATBLYGU I LYWODRAETHWYR MEDI 2010 – EBRILL 2011

Yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn, byddwn yn rhedeg Hyfforddiant i Glercod, hyfforddiant ar Swyddogaethau a Chyfrifoldebau ar gyfer llywodraethwyr newydd a hyfforddiant ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin Newydd a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Dyddiad	**Lleoliad**
9 Tachwedd, 2010	Ysgol G.G. Penrhos, SA9 1QT
16 Tachwedd, 2010	Neuadd y Sir, Llandrindod, LD1 5LG
30 Tachwedd, 2010	Ysgol G.G. Dyffryn Banw C.P., Llangadfan, SY21 0NW
2 Rhagfyr, 2010	Plas Dolerw, Y Drenewydd, SY21 2EH
7 Rhagfyr, 2010	Y Ganolfan Athrawon, Ysgol G.G. Llanfaes, LD3 8EB

Y Fframwaith Arolygu Cyffredin Newydd a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion

Dyddiad	**Lleoliad**
2 Mawrth, 2011	Ysgol G.G. Penrhos, SA9 1QT
7 Mawrth, 2011	Neuadd y Sir, Llandrindod, LD1 5LG
9 Mawrth, 2011	Ysgol G.G. Dyffryn Banw, Llangadfan, SY21 0NW
14 Mawrth, 2011	Canolfan Athrawon, Ysgol G.G. Llanfaes, LD3 8EB
16 Mawrth, 2011	Plas Dolerw, Y Drenewydd, SY21 2EH

Mae gwybodaeth bellach am y cyrsiau a'r dyddiadau ar gael i'w lawrlwytho o Wefan Llywodraethwyr Powys **http://www.powys.gov.uk/index.php?id=3061&L=1**

Os hoffech gadw lle ar unrhyw un o'r sesiynau hyn, cysylltwch â'r Uned Hyfforddiant ar **01597 826716**, neu anfonwch e-bost at bsftraining@powys.gov.uk. Os hoffech drafod unrhyw ofynion hyfforddiant, cysylltwch â Beth Groves, Swyddog Hyfforddiant a Datblygu – Llywodraethwyr ar 01597 826402, neu anfonwch e-bost at **beth.groves@powys.gov.uk.**

Rydym yn ceisio gwella'r cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael i lywodraethwyr yn barhaus, a byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych am hyfforddiant presennol, yn ogystal ag awgrymiadau ar gyfer pynciau i ymdrin â hwy mewn rhaglenni yn y dyfodol.

CANLLAW LLYWODRAETHWYR I'R GYFRAITH

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud newidiadau i benodau 3, 4, 7, 8, 10, 14, 16, 17, 19, 21, 23 a 25 o Ganllaw Llywodraethwyr i'r Gyfraith. Mae'r penodau diwygiedig i'w gweld ar wefan Llywodraethwyr Powys, yn **http://www.powys.gov.uk/index.php?id=3061&L=1.**

CANLYNIADAU ARHOLIAD 2010

LEFEL A CBAC LEFEL A CBAC

Roedd mwy na 5 allan o bob 10 canlyniad (54%) ar raddau A*, A a B, gyda 6% yn ennill y radd A* newydd, ac 18% arall yn ennill gradd A. Llwyddodd bron pawb a wnaeth sefyll lefel A ym Mhowys i basio (98%). Mae'r canlyniadau ar gyfer 2010 ychydig yn is na 2009, gan adlewyrchu tuedd Cymru, fodd bynnag, mae canlyniadau Powys llawer yn uwch na chanlyniadau Cymru a Lloegr unwaith eto. Mae canlyniadau CBAC Powys ar gyfer graddau A*-B mwy na 4% yn uwch na ffigyrau Cymru-gyfan (pob Bwrdd Arholi), gan gynnal y cynnydd ardderchog a welwyd ers 2001.

Mae nifer y ceisiadau CBAC yn cynrychioli tua 70% o'r holl geisiadau ar gyfer lefela ym Mhowys. Mae ffigyrau dros dro ar gyfer pob Bwrdd yn dangos fod 56% o'r canlyniadau ar raddau A*, A a B, gyda 5% yn ennill y radd A* newydd, a 25% arall yn ennill gradd A.

TGAU CBAC

Roedd bron 7 allan o 10 canlyniad (69%) ar raddau A*-C, gan gynnal perfformiad ardderchog ysgolion Powys. Roedd canlyniadau ar raddau A*-C wedi lleihau ychydig o 2009, ac roedd hyn yn wir ar gyfer y canlyniadau ar y graddau uwch A*-B hefyd. Mae canran y graddau A*-C ym Mhowys bron 3% yn fwy nag ar draws Cymru. Roedd y gyfradd pasio cyffredinol ar gyfer graddau A*-G yn debyg i lefel y llynedd, gydag ychydig dros 99%, bron 1% yn uwch na chyfradd pasio Cymru-gyfan, sef ychydig dros 98%.

Mae canlyniadau eleni ar gyfer y graddau uchaf A*-A, sef 21%, bron 2% yn fwy na'r canlyniadau ar draws Cymru. Mae canran y canlyniadau ar raddau A*-B, sef 41%, mwy na 2% yn uwch na Chymru. Mae ffigyrau dros dro ar gyfer pob Bwrdd yn awgrymu fod 72% o'r canlyniadau ar lefel A*-C, gyda 24% ar lefel A*-A.

Mae'r canlyniadau hyn yn cynnal y safonau uchel a welwyd ym mherfformiad blynyddoedd blaenorol, ac maent yn gyson yn uwch na chyfartaleddau Cymru-gyfan.

Yn ogystal, mae nifer o ddisgyblion wedi ennill cymwysterau cyfatebol mewn pynciau galwedigaethol.

ASESIADAU'R CWRICWLWM CENEDLAETHOL 2010

Bu gwelliant yng nghanlyniadau Asesiadau Athrawon ym mhob Cyfnod Allweddol ym Mhowys yn 2010. Mae manylion llawn canlyniadau Powys wedi'u hanfon i bob ysgol

CRYNODEB

Mae canran y disgyblion sy'n ennill y lefel ddisgwyliedig neu uwch fel a ganlyn (ffigyrau 2009 mewn cromfachau):

	Saesneg	Cymraeg	Mathemateg	Gwyddoniaeth	Dangosydd Pwnc Craidd
Cyfnod Allweddol 1	84.2% (82.5%)	88.5% (87.2%)	88.7% (86.8%)	90.0% (90.5%)	82.2% (80.5%)
Cyfnod Allweddol 2	83.6% (80.3%)	85.7% (80.6%)	83.4% (81.6%)	89.0% (86.7%)	79.4% (75.3%)
Cyfnod Allweddol 3	81.6% (77.9%)	85.4% (78.0%)	81.8% (79.8%)	84.7% (82.1%)	73.8% (69.7%)

Ffôn: 01597 826402 E-bost: beth.groves@powys.gov.uk

Ysgolion a Chynhwysiant, Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys. LD1 5LG

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu ● Printed on recycled paper